

Cofnodion Pwyllgor Dethol Sir Fynwy

Cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Lle a gynhaliwyd The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance ar Dydd Mercher, 10fed Ebrill, 2024 am 10.00 am

Cynghorwyr Yn Bresennol

Cynghorydd Sir Lisa Dymock (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir: Emma Bryn, Tomos Davies, Jane Lucas, Maria Stevens, Jackie Strong, Tudor Thomas, Laura Wright, Alistair Neill (for Louise Brown)

Cynghorwyr Sir Hefyd yn Bresennol: Mary Ann Brocklesby, Leader of the Council and Catrin Maby, Cabinet Member for Climate Change and the Environment

Swyddogion Yn Bresennol

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle
Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter
Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant
Ian Saunders, Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy
Hazel Clatworthy, Swyddog Polisi Cynaliadwyedd
Deb Hill-Howells, Pennaeth Gwasanaethau Landlord Masnachol ac Integredig
Colette Bosley, Rheolwr Seilwaith Gwyrdd
Marianne Elliott, Sustainable Food Projects Manager
Matthew Lewis (Cefn Gwlad), Arweinydd Interim Perfformiad, Gwerthuso a Datblygu Rhaglen BywydMynwy
Kate Stinchcombe, Biodiversity & Ecology Officer
Ian Hoccom, Decarbonisation Manager

YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd Sir Louise Brown

1. Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd.

Derbyniwyd cyfraniad gan aelod o'r cyhoedd sydd ar gael ar-lein. Roedd yr Aelod Cabinet Catrin Maby yn dymuno ymhelaethu ar y materion a godwyd y tu allan i'r cyfarfod.

3. Strategaeth Argyfwng Natur a Hinsawdd 2024 – Craffu ar gynnydd y strategaeth cyn penderfyniad gan y Cabinet.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Catrin Maby yr adroddiad; rhoddodd gyflwyniad ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda Colette Bosley, Matthew Lewis a Hazel Clatworthy.

Cwestiynau allweddol gan Aelodau:

- A ydym yn cadw cofnod o'r coed a dynnwyd, y gwrychoedd a gollwyd, a'r coed sy'n disgyn bob blwyddyn, ac a ydym yn cofnodi Gorchmynion Diogelu Coed sydd wedi methu? A oes cynlluniau i gael strategaeth gwrychoedd?

- Pryd mae'r polisi awyr dywyll yn debygol o ddigwydd a beth rydym yn ei wneud i warchod yr awyr dywyll yn y cyfamser?
- A fyddai'n well gwahanu 'argyfwng hinsawdd' ac 'adfer natur', a disgrifio 'adfer natur' fel argyfwng, oherwydd nid yw cymhwyso'r term 'argyfwng' i bopeth o reidrwydd yn arwain at y cynllunio a'r ymagwedd orau. Gall ddrysu pobl ac mae angen inni fynd â phobl gyda ni a defnyddio ein dylanwad a'n gwybodaeth ddistyllu i hysbysu pobl.
- Y pryder ynghylch cerbydau trydan yw a ydym yn glir ynghylch gwir natur allyriadau carbon ac mae'r defnydd o fwynau prin wrth gynhyrchu'r batris ar gyfer cerbydau trydan yn arwain at gyfres o gwestiynau penodol, ond hynod bwysig, sy'n peri pryder os ydym hyn selio ein gweithredoedd tuag at sero net ar y defnydd o gerbydau trydan yn unig.
- Mae pryder hefyd bod Cymru'n cael ei disgrifio fel un o'r gwledydd sydd â'r dirywiad mwyaf o ran natur ar y ddaear – yn gysylltiedig â'r DU yn cael ei disgrifio felly yn Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023. Mae'r iaith a ddefnyddir braidd yn apocalyptaidd ac mae perygl wrth ddisgrifio popeth fel rhywbeth trychinebus gan na fyddwn mewn gwirionedd yn sicrhau cefnogaeth pobl wrth geisio mynd i'r afael â'r mater. Mae angen i ni annog a chefnogi trigolion a busnesau a dyna'r rhan sydd angen bod yn llawer cryfach yn y strategaeth hon oherwydd er nad yw hyn yn ymwneud â rhoi cymorth ariannol, mae'n ymwneud â gwneud popeth posibl i gefnogi trigolion a busnesau i symud i'r cyfeiriad hwn a rydym yn gwybod yr hyn y gall 100,000 o drigolion ei gyflawni, yn hytrach na chynghor, ac felly mae'n siŵr y gallai ffocysu ein hymdrechion ar hynny fod yn llawer mwy cynhyrchiol na rhai o'r pethau eraill. Mae gan Loegr hefyd fwy o grynodiad trefol na Chymru a'r Alban, ac felly a allent wrthbwysu rhai o effeithiau blerdwf trefol?
- Mae'n hanfodol ein bod yn deall yr hyn y gallwn ei wneud, yr hyn y mae gennym reolaeth drosto a'n bod yn glir ynghylch hynny, er enghraifft, ystumod ac awyr dywyll, y ffaith bod gennym Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn ffinio â Threfynwy, ac felly rhaid i ni ofyn i ni'n hunain a ydym. gan roi digon o sylw iddo a pha gynlluniau sydd gennym ar ei gyfer yn y dyfodol. Mae gennym hefyd enghreifftiau o ddyddiadau ac amseroedd pan fydd goleuadau ymlaen ar rai o'n hadeiladau ac felly yn gwastraffu trydan, pan nad oes eu hangen ac yn cyfrannu at awyr ysgafnach, megis maes parcio Ysgol Gyfun Trefynwy a goleuadau adeiladau'n cael eu gadael ymlaen a depo Rhaglan hefyd – mae angen felly mynd i'r afael gyda hyn - **CAM GWEITHREDU: Y Cynghorydd Lucas i anfon y manylion at y Cynghorydd Maby ac Ian Hoccom.**
- Dylid nodi pwysigrwydd fflora a ffawna, gwenyn a niferoedd trychfilod eraill, ymhlith cefndir o ostyngiad mewn niferoedd, a chlefydau megis coed ynn yn gwywo, sydd oll yn cael eu gwaethygu gan newid hinsawdd, ond mae yna arwyddion o adferiad ac adfywiad, ac felly mae'n bwysig adlewyrchu yr elfennau cadarnhaol yn yr adroddiad hwn hefyd.
- Mae pryder am effaith datblygiadau tai newydd a phwysigrwydd cydymffurfio â rheoliadau cynefinoedd.
- Mae pryderon hefyd am yr Afon Hafren a morglawdd Cil-y-coed, o ran lliniaru ac addasu ar gyfer perygl llifogydd ~ a ydym ni wedi anghofio hyn?
- Yn falch o weld bod mynd i'r afael â nodweddion gwastraff plastig yn amlwg yn y strategaeth argyfwng hinsawdd a natur, o ystyried yn y cylch cyllidebol blaenorol nôl yn 2023-2024, bod consesiwn cyllidebol o tua £253,000k, os yn gywir, i gefnogi ymdrechion gorfodi'r cyngor mewn perthynas â mynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon ledled y Sir. Sut mae'r adnodd ychwanegol hwn wedi'i ddefnyddio a sut y caiff ei ddefnyddio yn y dyfodol? Sut y bydd ein pwerau gorfodi a'n hadnoddau yn rhyngweithio'n ehangach â chefnogi'r strategaeth hinsawdd a natur? Ategap yr uchelgais a nodwyd i gefnogi trefi di-blastig ar draws y Sir er y bydd y dyhead, fel llawer o ddyheadau eraill yn y strategaeth, yn amodol ar gael cefnogaeth y gwirfoddolwyr, ac felly beth arall y mae'r aelod cabinet yn meddwl y gallwn fod yn ei wneud fel Cyngor i ddatgloi y potensial ymhellach a chymell y cyfalaf dinesig aruthrol sydd ar gael i ni i ysgogi cynnydd ystyrllon pellach, yn benodol wrth fynd i'r afael â sbwriel, ond hefyd i gefnogi dyheadau ehangach y strategaeth argyfwng hinsawdd a natur a gyflwynwyd i ni?

- Gall brwdfrydedd ynglŷn â'r pwnc arwain at orliwio wrth gyfathrebu, megis Cymru'n cael ei disgrifio fel un o'r gwledydd sydd wedi'i disbyddu fwyaf, tra nad yw'r adroddiad cyflwr natur yn sôn am hyn yn unman – mae'n cyfeirio at y DU. Mae'r canfyddiadau allweddol ar gyfer Cymru yn edrych ar gyfnod o 7 mlynedd yn unig, ond mae angen ei weld yn ei gyd-destun â'r sefyllfa ar gyfer gwledydd eraill sy'n dechrau ar lefel is, ac felly byddai'n fuddiol pwysleisio'r pethau cadarnhaol a gyflawnwyd eisoes.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i'r Aelodau am y cwestiynau a'r adborth. Mae'r adroddiad wedi'i graffu'n fanwl a gall yr Aelod Cabinet a'i gydweithwyr ystyried y pwyntiau a godwyd. Buom yn trafod sut yr oedd yr Aelodau am ddeall sut yr ydym yn casglu data am goed a gwrychoedd sy'n cael eu cwmpo a'u hailblannu ac edrych ar y cynllun ailblannu a'r hyn yr ydym yn ei wneud mewn perthynas â diogelu ein awyr dywyll a'n bywyd gwyllt trefol. Mae yna deimlad na ddylem ddisgrifio popeth fel argyfwng - nid yw'n darparu'r dull cynllunio gorau. Mae angen i ni annog pobl i ddod gyda ni ac nid ydym eisiau eu llethu gyda thermau fel 'argyfwng'. Mae rhywfaint o bryder ein bod yn defnyddio Cerbydau Trydan fel ateb ond nid dyma'r unig ateb na datrysiad i'r argyfwng newid hinsawdd.

Gwnaethpwyd pwynt dilys iawn ynglŷn â goleuadau adeilad y Cyngor a adawyd ymlaen e.e. goleuadau maes parcio mewn ysgolion a depo Rhaglan – mae hyn yn mynd yn groes i'n huchelgais awyr dywyll ac mae hefyd yn ddefnydd gwastraffus o drydan. Mae angen ystyried a chyfeirio at y pethau cadarnhaol megis y broblem gyda chlefyd coed ynn sy'n cael ei reoli gan y Cyngor, ac yn amlwg bydd yr adfywiad naturiol yn gweld rhywbeth cadarnhaol o hyn. Gwnaethpwyd pwyntiau am Forglawdd Cil-y-coed ac Afon Nedern a'i bwysigrwydd i drigolion ardal Glan Hafren o ran llifogydd ac ansawdd dŵr. Roeddem yn falch o weld gwastraff plastig yn cael lle amlwg ac rydym am wybod sut y bydd adnoddau'n cael eu defnyddio yn y strategaeth i fynd i'r afael â hyn.

4. Adferiad Natur – Craffu ar gynnydd y strategaeth cyn penderfyniad gan y Cabinet.

Cafwyd cyflwyniad gan Colette Bosley ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda'r Aelod Cabinet Catrin Maby.

Cwestiynau allweddol gan Aelodau:

- Roedd gennyf ddiddordeb mewn adolygu amcanion y blaengynllun. Nid yw Sir Fynwy yn union fel unrhyw ran arall o'r wlad, mae'n ardal o harddwch eithriadol ac yn un o Siroedd gwledig gorau'r DU, gyda threfi marchnad allweddol yn elwa o gysylltiadau trafndiaeth 360-gradd, ac felly mae cydnabyddiaeth o hyn fel man cychwyn yn byddai adran amcanion yr adroddiad yn ddefnyddiol. Mae'n ddigon posibl y byddai set well o amcanion yn gwreiddio bioamrywiaeth, oherwydd er ei fod yn derm a ddefnyddir yn aml, gallai esbonio'r hyn y mae'n ei olygu mewn termau real fod yn fan cychwyn i ni gyfeirio bod Sir Fynwy eisoes yn un o'r rhannau mwyaf eithriadol a rhagorol o'r wlad. Rydym am sicrhau bod trigolion a phlant ysgol ym mhob rhan o'r Sir yn datblygu eu hymwneud â byd natur a gellid cyfeirio'n well at roi mwy o bwyslais ar wreiddio bioamrywiaeth mewn termau real er mwyn cydnabod pa mor rhyfeddol yw rhan o'r wlad yr ydym ynddi ac y byddai. help i ddarparu'r 'arbenigedd' hwnnw yr ydych wedi cyfeirio ato fel un anodd ei gyflawni.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i'r swyddogion a'r Aelod Cabinet am gyflwyno'r adroddiad sydd yn amlwg wedi'i gefnogi gan y Pwyllgor. Mae'r adborth a ddarparwyd i'r swyddogion a'r Aelod Cabinet ei ystyried, sef,

nad yw Sir Fynwy yn un o'r Siroedd gwledig mwyaf eithriadol yn cael ei gydnabod yn yr amcanion, ac efallai mai un ffordd o ymgorffori bioamrywiaeth yw datblygu ymgysylltiad trigolion a phlant ysgol â byd natur.

5. Strategaeth Fwyd Leol – Craffu ar gynnydd y strategaeth cyn penderfyniad gan y Cabinet.

Cyflwynodd yr arweinydd Mary Ann Brocklesby yr adroddiad a rhoddodd Marianne Elliott gyflwyniad ac atebwyd cwestiynau'r aelodau gyda Deb Hill-Howells a Craig O'Connor.

Cwestiynau allweddol gan Aelodau:

- Mae angen banc bwyd Cil-y-coed yn tyfu, ac mae gennyf ddi-ddordeb yn y cysyniad o fwyd cymunedol a sut i uwchsgilio trigolion a dod â phobl ynghyd i efallai ddefnyddio tiroedd y Cyngor fel rhandiroedd – gan gydnabod y rhandir cymunedol hynod lwyddiannus yng Nghil-y-coed.
- Mae gennyf ddi-ddordeb yng ngartref gofal newydd Severn View sydd â rhandir cymunedol, a'r ethos yw dod â'r gymuned i mewn i hwyluso a darparu elfen gymdeithasol, gan bwysleisio nad yw bwyd yn ymwneud â maeth yn unig. Sut gallwn ni gefnogi trigolion lleol i gael mynediad i dir a chyfleusterau'r Cyngor? Ble a sut y gall hyn ddigwydd?
- O ran y 'Clwb Coginio', cafodd yr ysgol gynradd leol ei sesiwn gyntaf y prynhawn yma ac roedd diddordeb sylweddol gan y rhieni.
- Gan gyfeirio at Brydau Ysgol am Ddim (PYDd), mae'r gyllideb prydau ysgol a bwyd cinio yn cael ei wastraffu yn bryder allweddol – a oes adborth ynglŷn â pham mae gwastraff? Ai dewisiadau neu faeth plant ydyw?
- Mewn perthynas â'r nifer sy'n cofrestru i gael prydau ysgol am ddim, a allai'r nifer gael ei beryglu gan breswylwyr neu ofalwyr yn gorfod cofrestru ar-lein? Nid yw pawb yn ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol, ac felly a ellid hwyluso hyn yn well ar lafar? Mae rhieni wedi gofyn sut i gofrestru os nad oes ganddynt y 'system Scoop' – a allai fod mwy o opsiynau ar gyfer cyfleu'r neges i rieni?
- Os yw disgyblion wedi'u cofrestru ar gyfer PYDd, a oes cyfle am arian grant ar gyfer gwisgoedd ysgol?
- A oes modd gwella cadwyni cyflenwi yn lleol fel bod ysgolion a chartrefi gofal yn gallu cael cig - 70% o'r defaid a werthir trwy farchnad Rhaglan yn cael eu hanfon i Loegr i'w prosesu gan nad oes ffatri brosesu leol?
- Mae gwahaniaeth rhwng yr hyn y byddai trigolion yn ei weld fel geiriau a gweithredoedd gwirioneddol.... "Mae Sir Fynwy yn sefyll allan" a "lleol yn cael ei ddiffinio fel fel Sir Fynwy, Gwent...". Dydw i ddim yn teimlo bod Llandudno er enghraifft, yn 'lleol'. Mae angen i ni fod yn fwy penodol ac mewn termau real, dylai lleol olygu lleol a chael ei ddiffinio felly. Mae angen i ni wahanu Sir Fynwy oddi wrth weddill Cymru.
- O ran Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur, rwy'n cydnabod pwysigrwydd mynd â thrigolion a busnesau gyda ni ac mae'r strategaeth hon yn amlwg yn dibynnu ar eu cefnogaeth, ond mae'r contract a ddyfarnwyd yn ddiweddar i gyflenwr llaeth gannoedd o filltiroedd i ffwrdd yn tanseilio'n uniongyrchol y datganiadau moesegol a chynnyrch lleol.
- Rwy'n falch o weld bod y cerbyd trydan hydrogen newydd bellach yn gweini Pryd ar Glud i breswylwyr.
- Ysgol Osbaston: maen nhw'n adrodd yn ôl am yr holl bethau da maent yn eu gwneud am gyrchu bwyd, sy'n wych i'w weld – mae pethau a sgysiau da iawn yn digwydd ond rydym yn cydnabod bod gennym ni ffordd bell i fynd.
- A ellir cadarnhau a fyddai'r strategaeth fwyd leol hon wedi cael effaith sylweddol ar y penderfyniad gwreiddiol i ddyfarnu'r contract llaeth ysgol i fusnes yn Sir Benfro?
- O ran cymorth i fusnesau bach a chanolig, microfusnesau a busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn diwydiant bwyd y Sir ac mae'r rhain yn aml yn ei chael yn anodd cynyddu ac yn cael eu heffeithio gan ardrethi busnes uchel. Mae Llywodraeth Cymru

wedi torri cyfraddau i 40%, ond a all yr Arweinydd ymrwymo i ysgrifennu at y gweinidog ac erfyn arno i ailystyried?

- Mae'n gadarnhaol clywed am waith gyda thyfwyr lleol. Gydag 80% o'r tir yn laswelltir, mae'n aneffeithlon o'i gymharu â thyfu cynydau – faint o lwyddiant rydym wedi'i gael i drosglwyddo i gynyddu cynhyrchiant bwyd ar dir yr ydym yn berchen arno ac felly â rheolaeth drosto?
- Mae cyrchu bwyd lleol mor bwysig a dyna mae trigolion a Chynghorwyr ei eisiau. Mae nifer o ffermydd a thyddynnod Sirol ym Mhorthsgiwed, sydd am sicrhau y gallant barhau, sy'n well i'r amgylchedd ac sy'n dangos angerdd cymunedau gwledig. O ran gwaredu tir Cyngor Sir Fynwy ar gyfer datblygu, sut y caiff hyn ei gydbwysu â'r galw am dai?

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i'r Cynghorydd Brocklesby a'r swyddogion am gyflwyno'r strategaeth hon. Roedd yr aelodau eisiau deall beth rydym yn ei wneud i gefnogi ac addysgu ein cymunedau a phrosiectau uwchsgilio trigolion i fwyta prydau maethlon a sut y gallwn gefnogi a hwyluso trigolion lleol i gael mynediad i dir y Cyngor i dyfu eu cynnyrch eu hunain. Mae pryder am y nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael iddynt. Gofynnwyd a oes unrhyw ffordd y gallwn wella cadwyni cyflenwi yn lleol i'n cartrefi nyrsio, ysgolion, ac ati mewn perthynas â phrosesu'r cynnyrch hwnnw. Mae yna bryder gwirioneddol iawn o ddigwyddiadau diweddar sydd wedi achosi i aelodau drafod caffael bwyd a llaeth. Bydd y Cyngor a thrigolion wrth gwrs yn cefnogi strategaeth fwyd leol, ond hoffem weld strategaeth yn fwy penodol i Sir Fynwy ac efallai'r ffiniau cyfagos. Mae cynnyrch lleol yn allweddol wrth ystyried newid hinsawdd ac mae angen i'n strategaeth fwyd leol alinio.

Cafwyd canmoliaeth gan yr aelodau i'r cerbydau hydrogen sy'n gweini Pryd ar Glud i'n trigolion. Roedd cwestiwn yn gofyn a oedd y strategaeth fwyd leol wedi chwarae unrhyw ran yn y detholiad caffael diweddar o Totally Welsh ac rydym yn edrych am rywfaint o gefnogaeth i lobio Llywodraeth Cymru o ran y rhyddhad ardrethi busnes i RSMES yn y Sir. Roedd cwestiwn dilys ynghylch sut y bydd y Cyngor yn annog ffermio cynaliadwy wrth symud ymlaen a phwysigrwydd alinio ein holl bolisïau, boed hynny'n strategaeth fwyd leol, y strategaeth newid hinsawdd, y CDLI Newydd yn mynd i'r afael â hi, y rhinweddau, mae'r rhestr yn ddiidwedd.

6. Blaenraglen Gwaith a Rhestr Wehtredu y Pwyllgor Craffu Lle.

Fel y trafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Lle, bu'n rhaid gohirio nifer o eitemau ar y rhaglen waith tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gan na fydd unrhyw adroddiadau yn barod i'w harchwilio yn y cyfarfod nesaf ar 23ain Mai, bydd angen canslo hyn. Bydd deisebau a dderbynnir yn mynd i gyfarfod mis Gorffennaf.

7. Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet.

Wedi'i nodi.

8. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar y cofnodion - cynigiwyd gan y Cynghorydd Thomas ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Lucas.

9. Cyfarfod Nesaf: Dydd Iau 23 Mai 2024 am 10.00am.

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ganslo. Felly, bydd y cyfarfod nesaf ar 11eg Gorffennaf 2024.

Gorffennodd y cyfarfod am 1.05 pm